

Cynllunio am y Dyfodol

Canllaw i'r hyn y gallwch ei wneud ar
ôl ymadael â'r ysgol



0800 028 48 44

www.gyrfacymru.com/fynyfodol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwyniad



Byddwch yn ymadael â'r ysgol o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd y llyfryn yma'n eich helpu i feddwl beth fyddwch yn ei wneud. Mae nifer o opsiynau ar gael i bobl ar ôl ymadael â'r ysgol. Efallai na fydd rhai ohonynt yn iawn i chi neu efallai y byddwch eisiau rhoi cynnig ar fwy nag un. Bydd eich Cynghorydd Gyrfa yn eich helpu i weithio allan beth sy'n iawn i chi.

Beth allech chi wneud ar ôl ymadael â'r ysgol

- Mynd i waith neu hyfforddiant
- Gwirfoddoli
- Mynd i goleg
- Cael cynllun yn ystod y dydd

Sut y gall eich Cynghorydd Gyrfa helpu

Gallai eich Cynghorydd Gyrfa:

- Eich helpu i feddwl am y pethau rydych yn eu hoffi a dim yn eu hoffi.
- Eich helpu i feddwl lle byddech yn hoffi mynd ar ôl ymadael â'r ysgol.
- Eich helpu i gynnig am swyddi, trefnu i chi ymweld â cholegau a chael gwybodaeth am waith gwirfoddol.
- Eich helpu i gynllunio beth sydd angen i chi wneud cyn i chi ymadael â'r ysgol.
- Eich helpu i feddwl am y gefnogaeth y byddwch ei hangen pan fyddwch yn symud ymlaen o'r ysgol.



Pwy arall fedrai helpu?

Mae llawer o bobl eraill a all eich helpu i gynllunio'r hyn rydych eisiau ei wneud ar ôl ymadael â'r ysgol:

- Rhieni
- Athrawon a helpwyr eraill yn yr ysgol
- Gofalwyr
- Gweithwyr Cymdeithasol
- Teulu a ffrindiau

Ar ôl ymadael â'r ysgol, gallech:



Gweithio

Gall pobl ifanc edrych am waith llawn-amser neu ran-amser ar ôl ymadael â'r ysgol.

Os mai gwaith yw'r opsiwn gorau i chi, gall eich Cynghorwyr Gyrfa eich helpu i edrych am swydd.

Os nad yw mynd i swydd neu hyfforddiant yn iawn i chi ond yr hoffech gael profiad gwaith, gall eich Cynghorydd Gyrfa eich helpu i edrych am waith gwirfoddol. Ni fydddech yn cael eich talu am hyn ond gallech ddysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd.

Mynd i hyfforddiant

Os ewch i hyfforddiant, bydddech yn medru rhoi cynnig ar swydd i weld os ydych yn ei hoffi. Gall hyfforddiant barhau am hyd at 2 flynedd.

Bydddech yn dysgu sut i wneud swydd ac yn gweithio i gael cymhwyster.

Bydddech yn derbyn lwfans.

Dyma rai o'r pethau y gallwch roi cynnig ar hyfforddi ar eu cyfer:



Mynd i goleg

Yn y coleg gallech:

- Parhau gyda darllen a mathemateg
- Gwneud ffrindiau newydd
- Dysgu sgiliau newydd fel:
 - Paratoi am waith
 - Sgiliau bywyd
 - Coginio
 - Gofal anifeiliaid



Os ydych eisiau mynd i goleg, efallai y gall eich athrawon drefnu i chi fynd i'r coleg am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos cyn i chi ymadael â'r ysgol. Bydd hyn yn eich helpu i weld os ydych yn hoffi coleg.

Coleg preswyl

Efallai y gallech fynd i goleg preswyl os nad oes unrhyw gyrsiau y gallwch fynd iddyn nhw yn eich coleg lleol.

Mewn coleg preswyl bydddech yn:

- Aros yn y coleg yn ystod yr wythnos neu yn ystod y tymor
- Dysgu gofalu amdanoch eich hun, cario ymlaen gyda darllen a mathemateg a dysgu sgiliau newydd.



Os ydych eisiau mynd i goleg preswyl gall eich Cynghorydd Gyrfa drefnu i chi a'ch rhieni/gofalwyr ymweld â cholegau. Byddai angen i'r Cynghorydd Gyrfa wneud cais am gyllid i chi fynd i goleg preswyl arbenigol.



Dilyn cynllun yn ystod y dydd

Os oes gennych Weithwyr Cymdeithasol gallent siarad gyda chi a'ch helpu i baratoi cynllun o bethau y byddech yn hoffi eu gwneud.

Gallai'r rhain fod yn bethau y gallech eu gwneud mewn canolfan neu mewn lleoedd eraill.

Gallech:

- Mynd i nofio
- Mynd i siopa
- Garddio
- Gwneud pethau

Bydd eich Cynghorwyr Gyrfa yn eich helpu i gynllunio beth hoffech ei wneud ar ôl i chi ymadael â'r ysgol.



Cynllunio Pontio



Mae Cynllunio Pontio yn golygu cynllunio am newidiadau fydd yn digwydd yn eich bywyd wrth i chi fynd yn hŷn. Bydd gennych Adolygiadau Cynllunio Pontio i'ch helpu i gynllunio.

Caiff y cyfarfodydd hyn eu cynnal unwaith y flwyddyn tra'r ydych yn dal i fod yn yr ysgol.

Caiff amrywiaeth o bobl eu gwahodd i'ch adolygiad, byddant yn cynnwys:

- Chi
- Rhieni/Gofalwyr
- Cynghorydd Gyrfa
- Athrawon
- Gweithwyr Cymdeithasol


Mae'n bwysig meddwl beth hoffech ei wneud ar ôl ymadael â'r ysgol. Gall eich Cynghorydd Gyrfa eich helpu i gael yr holl gefnogaeth rydych ei angen. Byddwch chi a'ch Cynghorydd Gyrfa yn paratoi Cynllun Dysgu a Sgiliau sy'n dweud wrth y coleg neu'r darparwr hyfforddiant gyda beth rydych angen help.




Beth hoffech chi ei wneud yn y dyfodol?




Pwy fyddech chi'n hoffi iddyn nhw ddod i'ch adolygiad?



Beth fyddech chi'n hoffi siarad amdano yn eich adolygiad?



Beth sy'n bwysig i chi wrth gynllunio eich dyfodol?



Gallwch gael help i gynllunio ar gyfer eich adolygiad drwy ddefnyddio adran "Fy Nyfodol" ar www.gyrfacymru.com/fynyfodol

Ble i ddod o hyd i Gyrfa Cymru



Byddwch yn dod o hyd i ni ym mhob ysgol ac uned anghenion arbennig, ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach. Rydym hefyd yn gweithio yn y gymuned.



Gwefan: www.gyrfacymru.com



Ffôn: 0800 028 48 44



Os ydych yn galw o ffôn symudol defnyddiwch 029 2090 6800 (cyfraddau safonol ffôn symudol)



Ffôn Testun: 0800 0029 489 (ar gyfer cwsmeriaid byddar a thrwm eu clyw)



Fy nghynlluniau ar gyfer fy nyfodol

Defnyddiwch yr adran yma i helpu cynllunio ar gyfer coleg, hyfforddiant, gwaith a symud ymlaen o'r ysgol.

Enw:

Ar ôl ymadael â'r ysgol fe fyddwn i'n hoffi:

- Mynd i waith neu hyfforddiant
- Gwirfoddoli
- Mynd i'r coleg
- Cael cynllun yn ystod y dydd



Pam fyddwn i'n hoffi gwneud hyn?



Pa sgiliau sydd gen i?



Pa gymwysterau sydd gen i neu y byddaf yn eu cael cyn ymadael â'r ysgol?



Pa brofiad gwaith ydw i wedi'i wneud?



Pa brofiad gwaith hoffwn i roi cynnig arno?



Beth sy'n digwydd yn awr? Er enghraifft: ymweld â choleg neu ddarparwr hyfforddiant?

